# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2016

Amser: 09.26 - 09.57

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3790

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC (Cadeirydd)<br>Paul Davies AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>David J Rowlands AC |
| Tystion: | Gerard Elias CF, Comisiynydd Safonau |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 421KB) Gweld fel HTML (96KB)

## 1 Lobïo: Y Comisiynydd Safonau

1.1 Cynigiodd Y Comisiynydd Safonau rai sylwadau ar y sefyllfa lobïo gyfredol ac ar y sefyllfa yn y Deyrnas Unedig.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r Comisiynydd Safonau i'r cyfarfod.

2.2 Croesawodd y Cadeirydd Llyr Gruffydd AC i'r Pwyllgor wedi iddo gael ei ethol i gymryd lle Dafydd Elis Thomas AC.

## 3 Lobïo: Trafod papur gan y Comisiynydd Safonau

3.1 Siaradodd y Comisiynydd Safonau am ei bapur ar y gyfundrefn lobïo bresennol a hefyd ar sefyllfa'r Deyrnas Unedig ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

3.2 Gwnaeth yr Aelodau ystyried yr adroddiad a chytuno i:

- Gyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig ar y gyfundrefn lobïo ac
- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i roi gwybod am yr ymgynghoriad a chyfleu barn y Pwyllgor y gallai'r Llywodraeth ddymuno adolygu'r Cod Gweinidogol mewn perthynas â lobïo.

## 4 Sesiwn ymadawol gyda'r Comisiynydd Safonau

4.1 Bu'r Comisiynydd Safonau yn myfyrio ar ei amser yn y swydd sy'n dod i ben ar 30 Tachwedd 2016.

4.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd Safonau am ei waith dros y chwe blynedd diwethaf a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

4.3 Croesawodd y Cadeirydd Syr Roderick Evans CF fel y Comisiynydd Safonau nesaf.

## 5 Ethol Cadeirydd dros dro yn unol ag Adran 10.2 o'r weithdrefn gwyno

5.1 Cytunodd y Pwyllgor y dylid ethol Paul Davies AC i weithredu fel Cadeirydd dros dro yn unol â pharagraff 10.2 o'r drefn gwyno.